# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cod Ymddygiad - Adolygiad: Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Ganlyniadau'r Holiadur Urddas a Pharch (Mehefin 2019)

(09.30) (Tudalennau 1 - 16)

SoC(5)-11-19 Papur 1 - Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Ganlyniadau'r Holiadur Urddas a Pharch (Mehefin 2019)

SoC(5)-11-19 Papur 2 - Datganiad ar Ganlyniadau'r Holiadur Urddas a Pharch (3 Gorffennaf 2019)

## 3 Ystyried adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(09.35 - 10.15)

## 4 Adrodd Deuol

(10.15 - 10.45) (Tudalennau 17 - 27)

SoC(5)-11-19 Papur 3 - Y Comisiwn Etholiadol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

Eitem 2

# Arolwg Urddas a Pharch: Adroddiad ar y canlyniadau

Mehefin 2019





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Arolwg Urddas a Pharch:** Adroddiad ar y canlyniadau

Mehefin 2019

# Cyflwyniad

## Yn ystod gwanwyn 2018, cymeradwyodd y Cynulliad ei bolisi Urddas a Pharch a rhoddodd nifer o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn darparu gweithle diogel sy'n rhydd o ymddygiad bygythiol ac aflonyddwch, a bod y rhai sy'n gweithio gydag, neu'n dod i gysylltiad ag, Aelodau'r Cynulliad, y staff y maent yn eu cyflogi neu weithwyr Comisiwn y Cynulliad, yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Ym mis Mai 2018, cynhaliwyd arolwg dienw yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff Comisiwn y Cynulliad ddweud wrthym am eu profiadau o ymddygiad amhriodol yn y gweithle. Flwyddyn yn ddiweddarach, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad arolwg dienw eto ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth yr Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad. Agorodd yr arolwg ar-lein ar 13 Mai a daeth i ben ar 24 Mai 2019 gan roi tua pythefnos i unigolion fynegi eu barn.

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn gweithio i Gomisiwn y Cynulliad, i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol neu a oeddent yn Aelod Cynulliad. Ni ddefnyddiwyd dynodwyr eraill.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i hadolygwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad.

# 1. Cyfranogiad

## Roedd yr arolwg ar gael i bob un o'r 60 Aelod Cynulliad, oddeutu 250 o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a thua 450 o staff Comisiwn y Cynulliad.

Daeth 177 o ymatebion i'r arolwg, sy'n cyfateb i gyfradd cyfranogi o 23.3% o'r rhai a gafodd eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg – cynnydd o 6.5 % pwynt ers ein harolwg yn 2018.

- Dywedodd 128 o ymatebwyr eu bod yn gweithio i Gomisiwn y Cynulliad (28.4% o staff Comisiwn y Cynulliad) sy'n cynrychioli cynnydd o bron i 10 % pwynt o'r rhai a gymerodd rhan yn arolwg 2018.
- Dywedodd 36 o ymatebwyr eu bod yn gweithio i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol (14.4% o'r staff a oedd yn gweithio i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol) sy'n cynrychioli cyfradd gyfranogi ychydig yn is o gymharu â 2018.
- Roedd 8 o ymatebwyr yn Aelodau'r Cynulliad (13.3% o Aelodau'r Cynulliad), cynnydd cyfranogi o 5 % pwynt.
- Ni ddatgelodd 5 ymatebydd eu statws cyflogaeth.

Trwy gydol yr arolwg, gofynnwyd i gyfranogwyr sicrhau nad oeddent yn cynnwys unrhyw wybodaeth sensitif a allai ddatgelu pwy ydynt hwy neu rywun arall.

Nodwyd y nifer fach o Aelodau Cynulliad a gymerodd ran yn yr arolwg. Lle mae gwybodaeth wedi'i rhannu yn grwpiau o gyfranogwyr, nid ydym wedi cynnwys ACau er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y cyfrinachedd a addawyd gennym ar y dechrau.

# 2. Hygyrchedd:

Gwnaethom ofyn:

---

*Un o amcanion ein gwaith ar Urddas a Pharch yw sicrhau bod y broses o ddefnyddio'r weithdrefn gwyno neu o drafod pryderon yn fwy eglur a hygyrch i unrhyw un sydd am wneud hynny. Nodir y rhain ar ein gwefan, ar bosteri neu drwy ein llinell gymorth gyfrinachol. Rydym wedi profi'r materion hyn drwy ymarferiad arddull siopwr cudd ym mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, nawr, 12 mis ers i ni gryfhau ein trefniadau, hoffem wybod a ydych chi'n gwybod sut i gael gwybodaeth fel y gallwch adrodd am ymddygiad amhriodol?*

Dywedodd ymatebwyr:

---

Atebodd 139 o’r 171 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol gydag 81.3% o’r rhai a gymerodd ran yn nodi eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor neu yn gwybod sut i adrodd am ymddygiad amhriodol. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol â’r un cwestiwn a ofynnwyd yn 2018, lle’r oedd 55.8% o’r cyfranogwyr yn gwybod.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 139 | 81.3 |
| **Nid wyf yn siŵr** | 24 | 14.0 |
| **Nac ydw** | 8 | 4.7 |
| **CYFANSWM** | 171 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*P’un a ydych chi’n gwybod ble y gallwch gael gafael ar gyngor neu rywun i siarad â nhw os nad ydych yn barod i wneud cwyn, neu os ydych yn ansicr o’r llwybr cywir i’w ddilyn?*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 170 o’r 177 ymatebwr y cwestiwn hwn. Dywedodd 81.8% eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor neu siarad â rhywun. Nid yw’n bosibl cymharu ag arolwg 2018 gan nad oedd Swyddogion Cyswllt bryd hynny.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 139 | 81.8 |
| **Nid wyf yn siŵr** | 21 | 12.4 |
| **Nac ydw** | 10 | 5.9 |
| **CYFANSWM** | 170 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*A ydych chi’n gwybod sut i ofyn am gefnogaeth emosiynol, os ydych yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol ai peidio?*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 170 o’r 177 ymatebwr y cwestiwn hwn. Nododd bron i ddau draean (63.5%) eu bod yn gwybod sut i ofyn am gefnogaeth emosiynol, os ydych yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol ai peidio.  Nid yw’n bosibl cymharu ag arolwg 2018 gan nad oedd Swyddogion Cyswllt bryd hynny.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 108 | 63.5 |

| | | |
|---|---|---|
| **Nid wyf yn siŵr** | 41 | 24.1 |
| **Nac ydw** | 21 | 12.4 |
| **CYFANSWM** | 170 | 100.0 |

## Dadansoddiad:

Er bod yr ystadegau hyn yn dangos gwelliant cyffredinol o ran ymwybyddiaeth, polisïau, gweithdrefnau a chymorth sydd ar gael o gymharu â 2018, mae'r sylwadau a ddarparwyd a'r ystadegau sy'n dangos bod pobl yn ansicr neu ddim yn gwybod sut i gael gafael arnynt yn dangos bod angen mwy o waith. Mae angen i ni gynnal ein cynlluniau a'n cyfathrebu ynghylch y materion hyn. Byddant yn parhau i fod yn rhan o'n cynlluniau gwaith, ein cyfathrebu ac yn cael eu hymgorffori mewn hyfforddiant cynefino a gloywi.

## Gwnaethom ofyn:

*Cafodd yr holl awgrymiadau a wnaed yn 2018 yn ystod ein hymgynghoriad ar y polisi Urddas a Pharch newydd eu cynnwys yn y trefniadau presennol a gymeradwywyd ym mis Mai 2018. Yn ogystal, mae nifer o argymhellion a gynigiwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei adroddiad "Creu'r Diwylliant Cywir" wedi'u cynnwys.*

*Yn ddiweddar iawn, rydym wedi gofyn i'r 'Survivors Trust' ddarparu cyngor arbenigol cyfrinachol i rai y mae angen cefnogaeth arnynt os ydynt yn teimlo eu bod wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol rhywiol. Caiff ein canllawiau eu diweddaru i gynnwys manylion cyswllt yr ymddiriedolaeth wrth i ni ei helpu i gyfarwyddo â'n gweithdrefnau cwyno.*

*Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu barn ar unrhyw welliannau eraill y gallem eu gwneud. Darparwyd blwch testun gwag.*

## Dywedodd ymatebwyr:

Gwnaed 23 o sylwadau. Rydym wedi grwpio ymatebion i mewn i themâu.

<u>Gwelliannau:</u> Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn croesawu'r gwelliannau a wnaed ers yr arolwg diwethaf ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

<u>Gwybodaeth:</u> Mae angen cyfathrebu parhaus i adeiladu ar y newidiadau diwylliannol; cadw materion yn amlwg; sicrhau bod unigolion yn gwybod ble i gael cymorth; negeseuon cyfnodol drwy gydol y flwyddyn; posteri a gwybodaeth yn parhau yn weledol; eu cynnwys yn gyson yn y cyfnod cynefino i ddarparu ar gyfer staff newydd;

Ymchwiliad: Amharodrwydd i godi cwynion am ofn effaith ar yrfaoedd; annibyniaeth ymchwiliadau, yn enwedig os yw'n cynnwys priod/aelod o deulu Aelod Cynulliad; ansefydlogrwydd contractau ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o ganlyniad i newidiadau (gan gynnwys maint grwpiau). Ar y llaw arall, roedd rhywfaint o bryder ynghylch Aelodau'r Cynulliad a allai fod wedi cael eu cyhuddo ar gam a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Cyfrinachedd: Byddai staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn ei chael yn anodd siarad â staff y Comisiwn am faterion, ac mae canfyddiad y byddai Aelodau'n cael eu cefnogi ni waeth a oeddent yn iawn ai peidio. Codwyd ymddiriedaeth yn ogystal â'r angen i sicrhau bod hyfforddwyr yn amlinellu pwysigrwydd cyfrinachedd a'u bod yn creu lle diogel i'w drafod.

Preifatrwydd: Codwyd cwestiynau ymosodol gan y BBC yn ei arolwg yn 2018 a chafwyd mynediad at ddata personol ar gyfer y postiad.

# 3. Achosion o Ymddygiad Amhriodol:

Gofynnwyd am brofiadau unigolion ac a oeddent wedi profi ymddygiad amhriodol yn bersonol.

Gwnaethom ofyn:

*Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol yn y gweithle (neu pan oeddech ar ddyletswydd) gan unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn ein polisi – h.y. Aelod Cynulliad, aelod o Staff Cymorth yr Aelodau, staff Comisiwn y Cynulliad neu gontractiwr.*

Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 171 o'r 177 ymatebwr y cwestiwn hwn. Dywedodd dros bedair rhan o bump (83.0%) nad oeddent erioed wedi *profi* ymddygiad amhriodol yn ystod y 12 mis diwethaf wrth weithio i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu i Aelod Cynulliad/Grŵp fel Staff Cymorth i Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn cyflwyno gwelliant cadarnhaol o gymharu ag arolwg 2018 lle dywedodd 61.6% o'r cyfranogwyr nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad amhriodol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Nac ydw, erioed.** | 142 | 83.0 |
| **Ydw, ar sawl achlysur.** | 16 | 9.4 |
| **Ydw. Unwaith.** | 7 | 4.1 |
| **Byddai'n well gennyf beidio â dweud.** | 6 | 3.5 |
| **CYFANSWM** | 171 | 100.0 |

### Dadansoddiad:

Mae'r ystadegau hyn yn dangos gostyngiad yn nifer y rhai sydd wedi profi rhyw fath o ymddygiad amhriodol yn y 12 mis diwethaf (23 o bobl yn 2019 o gymharu â 37 o bobl yn 2018). Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn parhau'n uchel ac yn dangos bod angen gwaith pellach i wreiddio diwylliant o urddas a pharch yn ein hymddygiad bob dydd tuag at ein gilydd.

Yn fuan ar ôl yr arolwg Urddas a Pharch yn 2018, gwnaethom gymeradwyo'n ffurfiol ein polisi Urddas a Pharch sy'n nodi:

***"Mae ymddygiad amhriodol yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n effeithio yn andwyol ar urddas rhywun arall.*** *Mae'n cynnwys aflonyddu, aflonyddu rhywiol, bwlio, bygwth a gwahaniaethu anghyfreithlon. Gall achosion o ymddygiad amhriodol olygu troseddau, megis aflonyddu troseddol, ymosodiad cyffredin neu ymosodiad rhywiol. Ond mae'n ehangach na hynny.* ***Mae'n cwmpasu'r holl ystod o ymddygiad nas dymunir - hynny yw, ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd ai peidio, ac ni waeth a yw'n ddigwyddiad unigol ynteu yn rhan o gyfres."***

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y profiadau a brofwyd yn rhai lefel gymharol isel, eu bod yn cael eu trin ar y pryd neu nad oeddent yn teimlo eu bod yn ddigon gwael i adrodd i'r gweithdrefnau cwyno ffurfiol. Fodd bynnag, roedd rhai yn fwy arwyddocaol ac wedi effeithio ar urddas unigolion. Archwilir rhai o'r materion hyn yn fanylach yn Adran 4 (Mathau o Ymddygiad Amhriodol) o'r adroddiad hwn.

### Gwnaethom ofyn:

*Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi bod yn **dyst** i ymddygiad amhriodol yn y gweithle (neu pan oeddech ar ddyletswydd) gan unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn ein polisi – h.y. Aelod Cynulliad, aelod o Staff Cymorth yr Aelodau, staff Comisiwn y Cynulliad neu gontractiwr?*

### Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 172 o'r 177 ymatebwr y cwestiwn hwn. Dywedodd dros i dri chwarter (75.6%) nad oeddent erioed wedi bod yn ***dyst*** i ymddygiad amhriodol yn ystod y 12 mis diwethaf wrth weithio i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu i Aelod Cynulliad/Grŵp fel Staff Cymorth i Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn yn cyflwyno gwelliant cadarnhaol o gymharu ag arolwg 2018 lle dywedodd 54.1% o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi bod yn dyst i ymddygiad amhriodol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Nac ydw, erioed.** | 130 | 75.6 |
| **Ydw, ar sawl achlysur** | 19 | 11.0 |

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw. Unwaith.** | 15 | 8.7 |
| **Byddai'n well gennyf beidio â dweud.** | 8 | 4.7 |
| **CYFANSWM** | 172 | 100.0 |

Dadansoddiad:

Nododd 34 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn dyst i ryw fath o ymddygiad amhriodol yn y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn dangos gwelliant o gymharu ag arolwg 2018 lle dywedodd 42 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn dyst i ymddygiad amhriodol. Mae'n amlwg o'r sylwadau cyfrinachol a ddarparwyd bod nifer o'r adroddiadau hyn, ond nid pob un, yn ymwneud ag achosion unigol o ymddygiad amhriodol a dystiwyd gan nifer o wahanol bobl. Felly mae angen trin y wybodaeth ystadegol yn ofalus.

Gwnaethom ofyn:

*Yn y 12 mis diwethaf a ydych **wedi eich cyhuddo** o ymddygiad amhriodol a'ch cyfeirio at broses gwyno ffurfiol?*

Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 170 o'r 177 ymatebwr y cwestiwn hwn. Dywedodd bob un nad oeddent wedi ***eu cyhuddo*** o ymddygiad amhriodol yn ystod y 12 mis diwethaf wrth weithio i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu i Aelod Cynulliad/Grŵp fel Staff Cymorth i Aelodau'r Cynulliad.

Gwnaethom ofyn:

*Er mwyn i ni allu asesu a yw rhagor o bobl wedi bod yn 'galw allan' o ran unrhyw fath o ymddygiad amhriodol, a allwch ddweud wrthym a oes unrhyw un, yn y 12 mis diwethaf, wedi cysylltu â chi'n anffurfiol i'ch galw i gyfrif am rywbeth y gallent fod wedi barnu ei fod yn amhriodol?*

*Allwch chi ddweud wrthym, yn y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cysylltu â rhywun i'w galw i gyfrif am rywbeth yr ydych yn ei ystyried yn ymddygiad amhriodol?*

Dywedodd ymatebwyr:

Dywedodd chwe ymatebydd o'r 165 a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi cael eu galw i gyfrif neu eu 'galw allan' dros rywbeth yr ystyriwyd ei fod yn amhriodol.

Dywedodd 15 ymatebydd o'r 153 a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi galw rhywun i gyfrif dros rywbeth yr ystyriwyd ei fod yn amhriodol.

Dadansoddiad:

Yn ystod yr holl sesiynau staff ar Urddas a Pharch, trafodaethau tîm ac mewn hyfforddiant penodol yn ystod y 12 mis diwethaf, anogwyd staff Comisiwn y Cynulliad i ddechrau galw allan ar iaith, ymddygiad, jôcs neu sylwadau amhriodol y gellid eu hystyried yn dramgwyddus ganddyn nhw eu hunain neu eraill. Y rheswm dros hynny yw fel y gellir herio ymddygiad yn anffurfiol ac yn effeithiol heb i'r materion gael eu cyfeirio at gwynion. Ymddengys fod yr ystadegau a ddarperir uchod yn dangos bod her effeithiol yn digwydd.

Ein bwriad yw parhau i annog y dull hwn ac ystyried a allai hyfforddiant neu gyfleoedd datblygiad proffesiynol eraill fynd i'r afael â'r mater fel bod unigolion yn meddu ar y sgiliau i herio yn gwrtais ac anffurfiol pan fydd risg o sarhau eraill yn dod i'r amlwg.

## 4. Mathau o ymddygiad amhriodol:

Gofynnwyd i gyfranogwyr roi manylion i ni am y math o ymddygiad amhriodol a brofwyd neu a dystiwyd er mwyn canfod a oedd angen mynd i'r afael â materion penodol. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi i dri maes.

Gofynnwyd am brofiadau neu arsylwadau o natur rywiaethol gan gynnwys llygadu, cilwenu, jôcs, sylwadau, testunau, e-bost neu ystumiau eraill o natur rywiol; cyswllt corfforol digroeso, sylw di-eisiau parhaus.

Dywedodd ymatebwyr wrthym fod achosion o'r holl feysydd hyn. Roedd sylwadau o natur rywiaethol yn fwy amlwg nag eraill ac er nad oeddent yn arwyddocaol, nid oedd yr un o'r sylwadau a wnaed yn ategu'r diwylliant cynhwysol, yn rhydd o aflonyddu yr ydym yn ceisio'i gyflawni fel y nodwyd gan arweinwyr y pleidiau, Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn eu datganiadau a'u hadroddiadau dros y 18 mis diwethaf. Er ei bod yn amlwg bod rhai o'r achosion wedi cael eu 'galw allan' ac y deliwyd â nhw ar y pryd, nid oedd hynny'n wir am bob un ohonynt. Rydym yn annog unrhyw un yr effeithir arnynt i siarad yn gyfrinachol â'n Swyddogion Cyswllt neu'r 'Survivor's Trust' Darperir manylion ar ddiwedd yr adroddiad hwn.



Gwnaethom ofyn am brofiadau neu arsylwadau o fwlio, bwlio cudd a bygwth. Mae'r sylwadau a gafwyd yn cwmpasu'r tri maes ac i raddau helaeth yn ymwneud â'r ffordd y

siaradir â phobl neu'r ffordd y cânt eu tanseilio. Er nad yw'r sylwadau'n dangos problem eang i'r rhai sy'n profi'r math hwn o ymddygiad amhriodol, mae'n amlwg ar draws staff y Comisiwn a staff cymorth yr Aelodau. Hwn hefyd yw'r maes lle roedd clwstwr mwy o'r rhai sy'n profi neu'n dyst i'r mathau hyn o ymddygiadau. Mae ymatebwyr yn nodi bod nifer o achosion wedi cael eu galw allan ond mae mwy o amharodrwydd i wneud hynny pan fydd yn aelod o'r uwch reolwyr neu'n Aelod Cynulliad.

---

Gwnaethom ofyn a oedd pobl wedi profi aflonyddu, gwahaniaethu, sylwadau amhriodol, jôcs neu fathau eraill o ymddygiad amhriodol ar draws y nodweddion gwarchodedig (oedran, anabledd, rhyw, trosglwyddo i ryw arall/hunaniaeth rhywedd; iechyd meddwl; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol – bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, neu mewn meysydd eraill nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn eu cynnwys lle roedd cyfranogwyr yn teimlo rhyw fath o ymddygiad amhriodol.

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch profiadau o ymddygiad amhriodol yn ymwneud â throsglwyddo i ryw arall neu hunaniaeth rhywedd, iechyd meddwl neu gyfeiriadedd rhywiol – bod yn lesbiaidd, yn ddeurywiol neu'n hoyw. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfranogwyr brofi neu arsylwi achosion o ymddygiad amhriodol yn erbyn y nodweddion gwarchodedig eraill. Roedd un sylw yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd amhriodol oherwydd eu dewis iaith o dan ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Roedd sylwadau neu arsylwadau a oedd yn adlewyrchu materion rhywedd yn fwy amlwg sy'n adlewyrchu'r sylwadau a wnaed uchod ynghylch rhywiaeth.

## Dadansoddiad:

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan gyfranogwyr yn dangos bod nifer o'r ymddygiadau a ailadroddir yn yr adran hon wedi cael eu galw allan neu eu herio'n anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir am rai eraill. Er mai dim ond ychydig o sylwadau a gafwyd, y dangosyddion yw y dylai'r meysydd ar gyfer ffocws ein gwaith yn y dyfodol fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol fel a ganlyn:

- Sut yr ydym yn siarad â'n gilydd, tôn cyflwyno a sut mae hyn yn cael ei weld gan eraill sy'n profi'r ymddygiadau hyn.

- Delio â rhywiaeth yn y gweithle. Sut y rheolir sylwadau anffafriol am ryw, mamolaeth a sylw di-eisiau mewn ffordd fwy cadarn.

Fel y soniwyd yn yr adroddiad hwn, mae uwch dîm rheoli'r Comisiwn, Comisiwn y Cynulliad, Arweinwyr y Pleidiau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyd wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle sy'n rhydd o aflonyddu. Er bod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr wedi dweud nad ydynt wedi profi na bod yn dyst i ymddygiad amhriodol o unrhyw fath, mae'n amlwg o'r sylwadau a wnaed yn yr adran hon o'r arolwg bod gwaith i'w wneud ar lefel unigol i ddatblygu'r diwylliant rydym ni ymdrechu i greu. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb personol i fynd i'r afael â'r materion, grymuso pobl i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth a dangos arweinyddiaeth i greu diwylliant mwy cynhwysol. Mae gan bob un ohonom ddiddordeb cyffredin mewn gwneud hynny.

Gwnaethom ofyn:

---

*Os ydych wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu wedi bod yn dyst i ddigwyddid o ymddygiad amhriodol, ond heb roi gwybod am hyn, nodwch pam.*

Dywedodd ymatebwyr:

---

Cafwyd 24 o sylwadau. Mae'r rhain wedi'u grwpio i'r themâu canlynol:

Ymddiriedaeth yn y broses: Fel yn yr arolwg y llynedd, ac er ei bod yn llawer amlycach bod unigolion wedi herio ymddygiad amhriodol eu hunain yn anffurfiol, lle na wnaeth unigolion gwyno, roedd canfyddiad na fyddai cwynion yn erbyn uwch swyddog neu Aelod Cynulliad yn arwain at well canlyniad. Codwyd materion o ymddiriedaeth yn y system ac a fyddai'r sefydliad yn ochri ag Aelodau neu uwch swyddogion, yn ogystal â phryderon ynghylch a fyddai rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol yn effeithio ar yrfa rhywun yn y dyfodol. Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch a fyddai cwynion yn cael eu trin yn deg, yn cael eu cymryd o ddifrif, a'i bod yn haws peidio ag adrodd oherwydd y straen dan sylw.

Gwybodaeth: Ddim yn gwybod sut i wneud cwyn.

Datrysiad anffurfiol: Problemau wedi'u datrys yn anffurfiol; ni theimlwyd eu bod yn ddigon drwg i roi gwybod amdanynt.

Gwnaethom ofyn:

---

*A oedd unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffai'r cyfranogwyr eu gwneud.*

Dywedodd ymatebwyr:

---

Gwnaed saith sylw. Er bod y rhain i raddau helaeth wedi'u cynnwys mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, rydym yn ailadrodd crynodeb o'r sylwadau ychwanegol a gafwyd yma er mwyn bod yn gyflawn.

Mynegwyd hyder yn y prosesau newydd a theimlwyd fod hwn yn amgylchedd diogel a bod y Cynulliad yn gofalu am bobl sy'n gweithio yma. Fodd bynnag, roedd canfyddiad bod rhai gwleidyddion neu uwch aelodau o staff yn ymddwyn yn afresymol ac esgusodir hyn yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater. Mae'n anodd rhoi gwybod am ddigwyddiad os yw person mewn cadwyn rheoli llinell.

Diwedd

## Datganiad ar Ganlyniadau Arolwg Urddas a Pharch 2019

Fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, Arweinwyr y Pleidiau a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, rydym wedi cael copi o'r adroddiad a baratowyd gan Gyfarwyddwr Ymgysylltu y Cynulliad ar arolwg urddas a pharch 2019.

Gwahoddwyd Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff Comisiwn y Cynulliad i gymryd rhan yn yr arolwg ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd ei farn a'n galluogodd i ganolbwyntio ar y meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Eleni, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, sef 177. Er bod y sampl yn parhau'n fach, rydym yn gwerthfawrogi'r safbwyntiau a fynegwyd a byddant yn cyfrannu at ein gwaith parhaus ar urddas a pharch.

Ers mis Hydref 2018, mae gwaith wedi cael ei wneud i gryfhau a gwella ein polisïau, ein canllawiau, a'n cefnogaeth ac i brofi hygyrchedd ein gweithdrefnau. Roeddem yn falch o nodi canfyddiadau'r adroddiad, sef bod dros 80 y cant o'r cyfranogwyr yn gwybod sut i gael gafael ar wybodaeth am sut i adrodd am ymddygiad amhriodol ac o ble i gael cyngor os oeddent yn ansicr. Mae hyn yn welliant ers y llynedd, yn enwedig drwy ein hyfforddiant cynefino a gloywi.

Yn dilyn ymgynghoriad manwl, cafodd ein polisi Urddas a Pharch ei gymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Mai 2018. Fel prif sefydliad democrataidd Cymru, mae gennym bellach gyfrifoldeb i weithredu yn unol â'r safonau uchel a nodir ac i arwain drwy esiampl.

Er bod yr adroddiad yn dweud wrthym fod gostyngiad yn nifer y bobl sydd wedi bod yn destun rhyw fath o ymddygiad amhriodol dros y 12 mis diwethaf, mae'r ffigurau'n parhau i beri pryder ac nid ydynt yn gydnaws â'r amgylchedd cynhwysol lle nad oes aflonyddu a nodwyd gennym mewn datganiadau blaenorol.

Buddsoddwyd amser ac ymdrech i wella ein prosesau ac i weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad "Creu'r Diwylliant Cywir". Cyflwynwyd rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth i bob plaid wleidyddol a staff y Comisiwn, gyda'r nod o wreiddio diwylliant mwy cynhwysol a mynd i'r afael â'r materion a ddaeth i'r amlwg. Mae systemau wedi gwella a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae adborth o'r arolwg yn awgrymu bod ymddygiadau personol a sut rydym yn ymddwyn o ddydd i ddydd yn bethau y mae angen inni fynd i'r afael â hwy o hyd.

Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr, dros 80 y cant, nad oeddent wedi bod yn destun unrhyw fath o ymddygiad amhriodol. Felly, carfan fach o unigolion sy'n gyfrifol am y materion a nodwyd yn yr arolwg. Fodd bynnag, mae gweithredoedd y garfan fach honno yn ein pardduo ni i gyd ac yn pardduo enw da'r Cynulliad. Yn unigol, mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gyflwyno'r newidiadau diwylliannol yr ydym yn ceisio'u

cyflawni - naill ai trwy herio unigolion yn briodol neu drwy reoli ein hymddygiad personol ein hunain yn fwy effeithiol.

Yn gadarnhaol, mae'r adroddiad yn dangos bod tystiolaeth o bobl yn beirniadu neu'n herio mathau o ymddygiad amhriodol ac rydym yn falch o weld bod unigolion yn gwneud hynny. Gwyddom y gall herio iaith, tôn llais neu faterion amhriodol eraill sy'n effeithio ar urddas unigolyn yn aml fod yn ffordd effeithiol o roi terfyn arno neu dynnu sylw at effaith sylwadau diofal neu ymddygiad amhriodol ar rywun.

Cynhelir ymgyrch newydd drwy gydol yr haf ac ar ddechrau tymor yr hydref i roi gwarant na fyddwn yn cadw'n dawel pan fyddwn yn dyst i unrhyw fath o ymddygiad amhriodol. Rhaid ei herio. Rhaid i bob un ohonom, ar draws y sefydliad, gymryd cyfrifoldeb personol am ein hymddygiad fel ei fod yn gyson â'r polisi Urddas a Pharch. Rhaid i ni hefyd gefnogi unigolion, gan eu grymuso i adrodd am eu profiad er mwyn gallu datrys eu cwynion neu eu pryderon.

Fel gwleidyddion, rydym yn aml yn siarad am ddatblygu gwleidyddiaeth fwy caredig. Nid yw hyn yn cyfyngu ei hun i'r ffordd rydym yn siarad â'n gilydd yn y Siambr neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n golygu gwneud hyn drwy'r amser, yn y Senedd ac o'i chwmpas, yn Nhŷ Hywel, mewn swyddfeydd etholaethol neu ble bynnag y mae ein gwaith yn mynd â ni. Ac nid yw'n golygu gwleidyddion yn unig. Mae angen i bob rheolwr staff ystyried sut y gall ymddygiad sy'n effeithio ar urddas unigolyn ei ddadrymuso.

Fel arweinwyr y sefydliad, rydym yn unedig yn ein barn ac mae angen i ni gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r mater hwn. I'r perwyl hwn, ac o ystyried yr adborth a gafwyd o'r arolwg, bydd yr ymgyrch Hawl i Herio yn cynnwys addewid sy’n ein hymrwymo i beidio â chadw'n dawel pan fyddwn yn gweld ymddygiad neu'n clywed iaith sy'n effeithio ar urddas rhywun arall. Bydd rhan o'r ymgyrch hefyd yn rhoi atebion a dulliau ymarferol i helpu unigolion i herio effaith ymddygiad o'r fath arnynt yn bersonol. Rydym yn rhoi ein cefnogaeth lawn i'r ymgyrch hon ac yn disgwyl i bawb sydd ag unrhyw gyfrifoldeb rheoli neu arwain gymryd y mater hwn o ddifrif.

Elin Jones, y Llywydd
Mark Drakeford, Arweinydd Grŵp Llafur Cymru
Paul Davies, Arweinydd grŵp Ceidwadol Cymru
Adam Price, Arweinydd grŵp Plaid Cymru
Mark Reckless, Arweinydd y grŵp Brexit
Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon